

YSGOL GYMRAEG BRYNIAGO



CYNLLUN A PHOLISI CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2026 – 2031

Dyddiad adolygu a mabwysiadu:

Date reviewed and adopted: **06.10.2026**

Dyddiad yr adolygiad nesaf: **Hydref 2027**

Date of next review: **Autumn 2027**

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Signature of chair of governors:

CYNNWYS

Is-adran	Cynnwys	Rhif y dudalen
	Rhagair	3
1	Cyflwyniad	4
2	Cyd-destun ein Hysgol	5
3	Integreiddio Cydraddoldeb mewn Polisiâu Statudol ac Anstatudol eraill	6
4	Hawliau plant	7
5	Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru	8
6	Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	9
7	Rolau a Chyfrifoldebau	9
8	Dadansoddi a Gwerthuso Data	11
9	Ymgysylltu	15
10	Asesiadau Effaith Cydraddoldeb	15
11	Dysgu Proffesiynol Staff	16
12	Amcanion Cydraddoldeb	16
14	Amcan Cyflog rhwng y Rhywiau	16
15	Cyhoeddi a monitro canlyniadau	17
16	Arweinyddiaeth Strategol	17
Atodiad 1	Cynllun Cydraddoldeb Strategol	18

RHAGAIR

Yn **Ysgol Bryniago** rydym yn cydnabod ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau yn llawn i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo tegwch i bob dysgwr, gweithiwr, aelod o gymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig.

Rydym yn llwyr gefnogi gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r angen am amddiffyniad rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i lywio gan farn ein dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach fel ein bod yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn gadarn â blaenoriaethau ar gyfer gwella a bod tegwch a chydraddoldeb yn sail i bopeth a wnawn fel darparwr addysg a chyflogwr. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb am gyfnod o bedair blynedd a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i leihau anghydraddoldebau a nodwyd, gwella canlyniadau a meithrin perthnasoedd da yn yr ysgol a thu hwnt iddi. Mae sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael eu trin â gofal, parch ac urddas wrth wraidd popeth a wnawn.

Bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb fel yr amlinellir yn ein Cynllun, ac yn erbyn tri nod dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y rhain yn cael eu rhannu a'u cyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Byddwn yn ymgysylltu â chymuned ein hysgolion a phartneriaid ehangach i sicrhau bod ein cynllun a'r camau gweithredu a gymerwn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion yn ein hysgol ac i aelodau o gymuned ein hysgolion sy'n profi'r anfantais, gwahaniaethu ac anghydraddoldebau mwyaf.

ENW: Nia Jones
PENNAETH

ENW: Karen Thomas
CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

1. CYFLWYNIAD

Yn Ysgol Bryniago rydym yn cydnabod gwerth amrywiaeth ac rydym yn ymroddedig i feithrin ymdeimlad o berthyn a derbyniad, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol ein dysgwyr. Rydym yn cydnabod, pan fydd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu, meithrin perthnasoedd cadarnhaol, a datblygu ymdeimlad cryf o hunan-werth a hunaniaeth. Sicrhawn fod pob dysgwr, rhiant/gofalwr, staff ac aelod o'r ysgol a'r gymuned ehangach yn cael eu trin fel unigolyn, gyda thegwch, parch, ac urddas beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion gwarchodedig.

Mae Cenhadaeth ein hysgol yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn cydnabod bod cymdeithas yn amrywiol, ac rydym yn llwyr ymrwymedig i baratoi ein dysgwyr i ffynnu mewn cymdeithas o'r fath. Nid ydym yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Rydym yn ymdrechu i feithrin cysylltiadau da ac rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

Rydym yn gwerthfawrogi egwyddorion cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod anghydraddoldebau systemig yn bodoli yn ein cymdeithas ac yn ein sefydliadau, ein strwythurau a'n prosesau. Mae rhai unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn wynebu mwy o anfanteision, ymyleiddio a gwahaniaethu, sy'n aml yn cael eu gwaethygu gan groestoriadedd — natur rhyng-gysylltiedig categoreiddio cymdeithasol, er enghraifft hil, dosbarth a rhywedd sy'n creu systemau rhyngddibynnol o wahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Rydym yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau bywyd wrth lunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Rydym yn sicrhau bod gwahaniaethau'n cael eu hystyried fel y peth arferol a bod amrywiaeth yn cyfoethogi ein bywydau a'n profiadau i gyd. Mae hyn yn treiddio drwy ein polisïau, ein gweithredoedd a'n hymddygiad. Fel cymuned ysgol rydym yn ymroddedig i nodi a goresgyn unrhyw rwystrau i ddysgu ac ymgysylltu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gwneud cynnydd a chyflawni ei botensial.

Rydym yn ymrwymedig i wneud addasiadau angenrheidiol i sicrhau cyfranogiad gweithredol pob dysgwr a'i deulu ym mywyd ein hysgol.

2. CYD-DESTUN EIN HYSGOL

Mae ein hysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardal Pontarddulais, Garnswllt, Pontlliw a Waungrown. . Mae tua 200 o ddysgwyr ar y gofrestr.

Ynglyn ag Ysgol Gymraeg Bryniago

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago
Awdurdod Addysg Lleol	Dinas a Sir Abertawe
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	Hydref 2026: 191
Nifer y disgyblion o oedran statudol	Hydref 2025: 162
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin	Hydref: 29
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	8.3%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	CDU: 6.5%

Canran y disgyblion Du, Asiaidd, ac Ethnig lleiafrifol	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	43.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0%

3. INTEGREIDDIO CYDRADDOLDEB MEWN POLISI'AU STATUDOL AC ANSTATUDOL

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn sail i holl bolisi'au, prosesau a gweithdrefnau ein hysgolion. Mae nifer o bolisi'au statudol ac anstatudol allweddol sy'n adlewyrchu gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a lle ceir aliniad â'r Polisi hwn a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Derbyniadau

- Cod ADY
- Cwynion
- Cwricwlwm
- Cyfle Cyfartal e.e. Cydraddoldeb hiliol/gwrth-hiliaeth
- Ymddygiad a Disgyblaeth Disgyblion
- Diogelu

Click or tap here to enter text.

Yn ogystal, rydym yn rhoi sylw dyledus i Ganllawiau Hawliau, Parchu Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru

4. HAWLIAU PLANT

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi'r hawliau sydd gan bob plentyn i sicrhau eu bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Rydyn ni'n rhoi hawliau plant wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud fel ysgol. Mae nifer o hawliau plant yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb (2010), sef:

- **Erthygl 2 (peidio â gwahaniaethu):** Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag fo'i gefndir teuluol.
- **Erthygl 3 (lles y plentyn):** Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.
- **Erthygl 12 (parchu barn y plentyn):** Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif.
- **Erthygl 13 (rhyddid mynegiant):** Rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i fynegi ei feddyliau a'i farn ac i gael mynediad at bob math o wybodaeth, cyn belled â'i fod o fewn y gyfraith.
- **Erthygl 14 (rhyddid meddwl, cred a chrefydd):** Mae gan bob plentyn yr hawl i feddwl a chredu beth mae'n ei ddewis a hefyd i ymarfer ei grefydd, cyn belled nad yw'n atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 23 (plant ag anabledd):** Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn gydag urddas a, chyn belled ag y bo modd, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned.
- **Erthygl 29 (nodau addysg):** Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddo annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliannau ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.
- **Erthygl 30 (plant o grwpiau lleiafrifol neu gynhenid):** Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd eu teulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad lle maent yn byw ai peidio.

5. DEDDF CYDRADDOLDEB (2010) A DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

Mae'n ofynnol i bob ysgol gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol manwl (SEP) fel rhan o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yng Nghymru.

Mae dyletswydd gyffredinol y PSED yn nodi'r hyn y mae angen i ysgolion ei ystyried wrth wneud penderfyniadau a datblygu polisiau a all effeithio ar ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Y nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i ddysgwyr yw:

- anabledd
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw, a
- chyfeiriadedd rhywiol

O dan y ddyletswydd gyffredinol, mae'n ofynnol i ysgolion (a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru) roi sylw dyladwy i:

- ddileu unrhyw achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Mae rhoi sylw dyladwy yn golygu bod yn rhaid i ni ystyried yn ymwybodol dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb a restrir uchod. Mae gosod Cynllun/Polisi yn ofyniad statudol i'n helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf, bydd ein hysgol yn:

- casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi gwybodaeth am y cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gyflawni tri nod Deddf Cydraddoldeb 2010;

- hunanwerthuso'n effeithiol a phenderfynu ar Amcanion Cydraddoldeb penodol a mesuradwy yr ydym yn eu cyhoeddi a'u dilyn yn weithredol dros gyfnod o bedair blynedd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol; ac
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff a'r gymuned ehangach i lunio, llywio a gwerthuso effeithiolrwydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

6. DIBEN Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Bydd cyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn effeithiol ac yn gyson yn galluogi ein hysgol i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng holl aelodau'r gymuned ysgol, waeth beth fo'u nodweddion unigol. Yn ogystal â hynny, byddwn yn dileu neu'n lleihau unrhyw anfantais a brofir gan unigolion oherwydd eu nodweddion gwarchodedig ac yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau, yn enwedig os yw cyfranogiad mewn agweddau ar fywyd ysgol yn anghymesur o isel. Byddwn yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol drwy fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu, a thrwy hyrwyddo dealltwriaeth rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a'r rhai nad ydynt.

7. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd yr aelodau canlynol o gymuned yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i gydraddoldeb a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol cynnwys pob dysgwr yn llawn, ac yn ymateb i'w anghenion unigol yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig amrywiol.

Mae'r corff llywodraethu yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl pan fyddant yn gwneud cais am swyddi yn ein hysgol;

- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl anabl, ac yn ymdrechu i gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a dysgwyr mewn modd cynhwysol; a
- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw ddisgybl pan fydd yn ein hysgol.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb o ran adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd am gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni/ofalwyr.

Uwch-dîm Arweinyddiaeth

Mae Uwch-arweinwyr yn ein hysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn berthnasol i bawb.
- rhoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth gan y corff llywodraethu.
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am gynllun ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol.
- sicrhau bod pob panel penodi'n rhoi ystyriaeth briodol i'r cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn neb o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.
- dylunio cwricwlwm sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddathlu cefndiroedd, gwerthoedd a nodweddion amrywiol yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o bobl â gwahanol greddau a safbwyntiau a herio ystrydebau.
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.
- ymdrin ag unrhyw achos o driniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn unol â'r polisïau perthnasol.

Staff Addysgu

Mae pob athro yn cyfrannu at sicrhau bod ei ysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a chynnal ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol.
- darparu deunyddiau ac adnoddau sy'n darlunio delweddau cadarnhaol, nad ydynt yn ystrydebol o wahanol nodweddion gwarchodedig.
- herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, ac adrodd a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau fel a bennir mewn polisïau perthnasol.

- cefnogi gwaith cynorthwywyr addysgu a'u hannog i adnabod ymddygiadau gwahaniaethol ac i ddilyn prosesau perthnasol.

Staff nad ydynt yn addysgu

Mae pob aelod o staff nad yw'n addysgu yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a chynnal ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol;
- Cydnabod ymddygiad gwahaniaethol a dilyn prosesau perthnasol.

8. DADANSODDI A GWERTHUSO DATA

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau ysgolion yr ysgol wedi hysbysu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Clybiau brecwast/ gofalu a chlybiau allgyrsiol grwpiau o ddysgwyr:

Mae'r ysgol yn cynnig i blant sy'n gymwys i PYDd i fynychu'r clwb gofalu yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, prin iawn yw'r dysgwyr PYDd sy'n mynychu'r clwb gofalu a'r clwb brecwast. Prin iawn yw'r dysgwyr sy'n gymwys i PYDd sy'n mynychu'r clybiau cwricwlwm allgyrsiol hefyd. Mae ychydig iawn o ddysgwyr ADY yn mynychu'r clwb gofalu/ brecwast yn achlysurol.

Byr-bryd ysgol:

Mae bron bob un disgybl sy'n gymwys am PYDd yn cael cynnig un byr-bryd yn rhad ac am ddim yn yr ysgol yn ddyddiol.

Ymweliadau addysgiadol:

Mae bron a bod pob disgybl sy'n gymwys am PYDd yn mynychu ymweliadau addysgiadol. Mae'r ysgol yn cynorthwyo'r dysgwyr yma yn ariannol e.e. talu cost teithio i ymweliad a/neu thalu 25%/50% o gost ymweliad preswyl. Mae y rhan fwyaf o ddysgwyr ADY yn mynychu ymweliadau addysgiadol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn agos gyda rhieni'r dysgwyr ADY o flaen llaw i weld beth yw bwriad y rhiant/ gwarchodwyr os yw anghenion y dysgwr yn ddwys. Bydd yr ysgol yn cynllunio o gwmpas dymuniad y rhiant/ gwarchodwr

e.e. sicrhau bod y disgybl yn mynychu'r ysgol ar y diwrnod neu yn rhoi camau penodol mewn lle i gefnogi anghenion y disgybl.

Amgylchedd yr ysgol:

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n agos â'r AALI i addasu dwy ystafell ddosbarth ar safle Bryniago Mawr er mwyn darparu darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu dwys o fewn clwstwr Gŵyr. Agorodd Canolfan Iago ym Medi 2025 ac mae bellach yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth bwrpasol. Mae'r gwaith o ddatblygu ystafell newid hygyrch a thoiled anabl wedi'i gwblhau, gan ddarparu cyfleusterau addas i ddysgwyr y ganolfan ac i gymuned ehangach yr ysgol.

Mae safle Bryniago Mawr yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr ac ymwelwyr sydd ag anableddau. Mae'r brif fynedfa a'r holl ystafelloedd dosbarth yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Er nad oes mynediad uniongyrchol o Ganolfan Iago i'r buarth chwarae, gellir cael mynediad trwy'r drysau ger toiledau'r bechgyn ac ar hyd y llwybr sy'n arwain at y buarth.

Mae toiled anabl ac ystafell newid hygyrch ar gael ar y safle, ac mae'r buarth chwarae hefyd yn addas i ddisgyblion ac ymwelwyr ag anableddau. Er bod grisiau yn arwain at un o ystafelloedd Canolfan Iago ac at gefn y neuadd, mae llwybrau amgen hygyrch ar gael sy'n galluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn i gyrraedd a gadael y mannau hyn yn ddiogel. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu a gwella ei chyfleusterau er mwyn sicrhau mynediad a chynhwysiant i bob dysgwr ac ymwelydd.

Adnoddau:

Mae gan yr ysgol adnoddau sy'n caniatáu i'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gael mynediad i gwricwlwm yr ysgol. Mae'r ysgol yn monitro yr adnoddau yn gyson a lle bo' angen fe archebir adnoddau penodol. Mae'r ysgol yn cydweithio gydag asianataethau allanol er mwyn archebu adnoddau perthnasol.

Cwricwlwm yr ysgol

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adlewyrchu amrywiaeth yr ysgol, y gymuned a'r gymuned ehangach. Mae cynllun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu am wahanol gredoau. Mae'r cynllun ACRh yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu am drawdoriad o bobll a gwahanol grwpiau o bobl o fewn y gymdeithas. Mae'r gwasanaethau boreol hefyd yn dathlu amrywiaeth yn y byd ac yn annog parch tuag at bawb.

Llais y plentyn:

Mae gan yr ysgol gyngor ysgol ac eco brwdfrydig iawn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan bob disgybl rol i chwarae o fewn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn, boed beth bynnag ei oed, gallu a hil yn cael llais o fewn yr ysgol. Mae pob plentyn ym Mryniago Bach yn cael cyfle i fod yn helpwr y dydd. Mae bron a bod pob disgybl ym Mryniago Mawr sydd ddim ar y cyngor ysgol/ eco yn rhan o'r Criw Cymreictod, criw buarth, Criw digidol neu Criw ffreutur. Mae'r ysgol yn cynnal cyfres o holiaduron ar draws y flwyddyn ysgol i glywed barn y dysgwyr am wahanol agweddau. Mae'r holiaduron yn gyfuniad o rai unigol a rhai dosbarth.

Nosweithiau rhieni:

Ar y cyfan, mae presenoldeb rhieni/ gofalwyr i nosweithiau rhieni yn dda. Prin yw'r rhieni sydd yn mynychu'r nosweithiau taro i mewn. Fodd bynnag, mae y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn mynychu'r noweithiau rhieni mwy ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys rhieni dysgwyr o gartrefi difreintiedig, rhieni dysgwyr ADY. Rhoddir cyfle i rieni sydd wedi gwahanu a sydd angen apwyntiadau arwahan i ddod i drafod cynnydd eu plentyn ar nosweithiau gwahanol. Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod copiau adroddiadau diwedd blwyddyn yn cael eu rhannu yn unol a dymuniadau'r rhieni/ gofalwyr.

Ymddygiad a gwrth-fwlio:

Ar y cyfan, mae ymddygiad dysgwyr yn dda. Mae pob grwp o ddysgwyr yn cael eu trin yn deg. Mewn achosion o fwlio, bydd yr ysgol yn ymchwilio yn llawn ac yn cefnogi pob dysgwr mewn sefyllfa o'r fath. Mae gan yr ysgol gamau clir i'w dilyn i reoli ymddygiad a bwlio. Mewn achosion lle mae ymddygiad dysgwyr unigol yn peri consyrn, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda rhieni er mwyn gwella'r ymddygiad. Gwneir defnydd o strategaethau yn ogystal a rhaglenni megis PSP er mwyn osgoi gwahardd y dysgwyr o'r ysgol.

Adrodd:

Mae'r ysgol yn adrodd am unrhyw un o'r uchod o fewn adroddiad y pennaeth i'r corff llywodraethu yn dymhorol.

Mae'r holl ddata a gasglwyd wedi'i ddefnyddio at ddiben dadansoddi tueddiadau yn ôl nodwedd warchodedig, gan hefyd ystyried gofynion diogelu data a deddfwriaeth.

9. YMGYSYLLTU

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod gennym farn glir o ran pa gamau sy'n cael eu hystyried yn bwysig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu yn ein hysgol.

Mae sicrhau lleisiau dysgwyr a'u teuluoedd a'u gofalwyr drwy fodd ystyrlon yn hanfodol er mwyn deall anghenion ein dysgwyr a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hymyleiddio a'r rhai mwyaf agored i niwed.

Ymgwymerwyd ag ystod o weithgareddau gwahanol i lywio ein cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Holiaduron rhieni a gofalwyr
- Holiaduron dysgwyr
- Holiaduron staff

10. ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB

Mae gan yr ysgol brosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ar waith.

Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn sicrhau nad oes unrhyw berson dan anfantais neu'n cael ei wahaniaethu yn ei erbyn gan weithgareddau, cynlluniau a pholisïau ein hysgol. Cynhelir Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau allweddol yr ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n gynyddol gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfiaeth yr ysgol â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yr holl bolisïau newydd a chynlluniau a phenderfyniadau strategol allweddol, cyn iddynt gael eu gweithredu.

11. DYSGU PROFFESIYNOL STAFF

Mae'n ofyniad statudol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswydd gyffredinol y PSED ymhlith staff a nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn y maes hwn drwy ein

prosesau rheoli perfformiad. Fel y cyfryw, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau hyfforddi.

12. AMCANION CYDRADDOLDEB

Gweler Atodiad 1 am fanylion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2026 i 2031 ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol yn unol â'n gweithgareddau ymgysylltu, hunanwerthuso a blaenoriaethau lleol/cenedlaethol. **Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cydraddoldeb Strategol** yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â'n Cynllun Datblygu Ysgol ac mae'r ddau gynllun wedi'u croesgyfeirio fel eu bod wedi'u cysylltu'n annatod.

12. AMCAN CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddadansoddiad data cyflogaeth gan fenywod a dynion yn flynyddol a bod amcan cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei ddatblygu lle nodir gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau.

Yn ein hysgol, nid ydym wedi gallu nodi gwahaniaeth o ran cyflog gan fod y grŵp staff yn rhy fach i wneud dadansoddiad ystadegol yn briodol.

13. CYHOEDDI A MONITRO CANLYNIADAU

Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro gan y corff llywodraethu a bydd yr holl gynlluniau newydd yn cael eu rhoi ar y wefan a'u rhannu ar gais â'r Ymgynghorydd Gwella Ysgolion.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiad blynyddol yn manylu ar werthusiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r corff llywodraethu. Yna manylir ar wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni/Ofalwyr.

14. ARWEINYDDIAETH STRATEGOL

Yr arweinydd ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn **Ysgol Bryniago** yw **Nia Jones**

Atodiad 1:

YSGOL Bryniago CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2026-2031

AMCAN CYDRADDOLDEB: Hyrwyddo cyfle cyfartal o safbwynt anabledd				
Nodwedd warchodedig: Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐ Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐				
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☐ Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒ Meithrin perthnasoedd da ☐				
RHESYMEG: <i>(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthyh?)</i> Agorodd Canolfan Iago ym Medi 2025 ac mae'n darparu darpariaeth arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol dwys o fewn Clwstwr Ysgol Gyfun Gŵyr. Mae Ysgol Bryniago yn ysgol gynhwysol sy'n ymrwymedig i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth briodol i lwyddo. Er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion cynyddol gymhleth y dysgwyr, mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu sgiliau a hyder staff drwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn galluogi staff i gefnogi dysgwyr ag ADY yn effeithiol, boed o fewn dosbarthiadau prif ffrwd neu o fewn y ddarpariaeth arbenigol, gan sicrhau profiadau dysgu cynhwysol a safon uchel o ofal a chefnogaeth i bob dysgwr.				
Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant	Camau Gweithredu Allweddol	Person Arweiniol	Llinell amser	Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/llwyddiant i chi
Mae staff yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i gefnogi dysgwyr ag ADY cymhleth yn effeithiol o fewn Canolfan Iago a dosbarthiadau prif ffrwd. Mae dysgwyr yn cael cefnogaeth briodol sy'n eu galluogi i gymryd rhan lawn yn y cwricwlwm a gwneud cynnydd da. Mae arferion cynhwysol yn amlwg ar draws yr ysgol.	- Cynnal archwiliad o anghenion hyfforddiant staff. - Darparu rhaglen ddatblygiad proffesiynol wedi'i thargedu ar feysydd megis cyfathrebu, anghenion synhwyrdd, rheoli ymddygiad a strategaethau addysgu cynhwysol. - Hyrwyddo cydweithio rhwng staff Canolfan Iago a staff dosbarthiadau prif ffrwd drwy arsylwadau, mentora a chynllunio ar y cyd.	Pennaeth CADY Arweinydd Canolfan Iago	Parhaus drwy gydol y flwyddyn academaidd Adolygu cynnydd yn dymhorol	Click or tap here to enter text. - Teithiau dysgu ac arsylwadau dosbarth. - Holiaduron a hunanarfarnu staff i fesur hyder a medrau. - Monitro cynnydd, lles ac ymgysylltiad dysgwyr. - Adolygiadau CDU a chyfarfodydd ALN. - Adborth gan rieni, gofalwyr a dysgwyr. - Adroddiadau cynhwysiant a ADY i'r corff llywodraethu. - Tystiolaeth o weithgareddau

	• Defnyddio arbenigedd yr AALI ac asiantaethau allanol i gefnogi datblygiad staff. • Rhannu arferion effeithiol mewn cyfarfodydd staff a sesiynau HMS. • Gwerthuso effaith yr hyfforddiant ar ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr.			hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol. Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.
Gwerthusiad (Parhad) 2025-2026: Mae strwythur staffio'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn derbyn cefnogaeth briodol o fewn bron pob dosbarth ers Medi 2025. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael mynediad amserol at gymorth ychwanegol sy'n eu galluogi i gymryd rhan lawn yn y cwricwlwm a gwneud cynnydd yn unol â'u hanghenion unigol. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ymyrraeth wedi ei chryfhau, gan alluogi bron pob dysgwr ym Mryniago Bach i dderbyn cefnogaeth mewn grŵp ymyrraeth o leiaf ddwywaith yr wythnos, a bron pob dysgwr ym Mryniago Mawr i dderbyn cefnogaeth o leiaf unwaith yr wythnos. Mae monitro mewnol yn dangos bod y trefniadau hyn wedi cyfrannu at well ymgysylltiad a chynnydd ymhlith nifer o'r dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Mae'r ysgol yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn natblygiad proffesiynol staff er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion cynyddol gymhleth dysgwyr. Yn ystod y flwyddyn, mae staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd ADY, gan gynnwys ymyriadau iaith a lleferydd megis WellComm a Language Link, strategaethau cefnogi dyslecsia a gweinyddu profion darllen. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cynyddu hyder ac arbenigedd staff wrth adnabod anghenion a darparu cymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr. Mae agor Canolfan Iago wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol yn natblygiad darpariaeth gynhwysol yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae saith disgybl yn derbyn cefnogaeth arbenigol drwy'r uned cyfrwng Cymraeg. Er bod y ddarpariaeth yn gymharol newydd, mae'r ysgol wedi dechrau rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a datblygiad staff er mwyn sicrhau bod gan yr holl aelodau staff y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn yn effeithiol. Bydd yr ysgol yn parhau i werthuso effaith y ddarpariaeth a datblygu arbenigedd staff ymhellach wrth i'r ganolfan sefydlu a thyfu.				

YSGOL Bryniago CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2026-2031

AMCAN CYDRADDOLDEB: Dileu gwahaniaethu negyddol, harasio, erledigaeth o safbwynt anabledd

Nodwedd warchodedig: Anabledd ☒ Ailbennu Rhywedd ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐
Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☐
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒
Meithrin perthnasoedd da ☐

RHESYMEG:

(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthyh?)

Mae nifer y dysgwyr, aelodau staff, rhieni, gofawyr ac ymwelwyr sydd ag anableddau yn cynyddu, gan gynnwys unigolion ag ystod eang o anghenion corfforol a hygyrchedd. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod amgylchedd yr ysgol yn parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau mynediad cyfartal a diogel i bawb. Bydd yr ysgol yn parhau i adolygu a gwella ei chyfleusterau a'i threfniadau er mwyn sicrhau bod pob dysgwr, aelod o staff ac ymwelydd yn gallu cael mynediad llawn at adeiladau, darpariaeth a gweithgareddau'r ysgol.

Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant	Camau Gweithredu Allweddol	Person Arweiniol	Llinell amser	Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/llwyddiant i chi
a) Mae amgylchedd yr ysgol yn hygyrch ac yn addas ar gyfer dysgwyr, staff, rhieni, gofawyr ac ymwelwyr ag anableddau. Mae rhwystrau i fynediad yn cael eu lleihau a gall pawb gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.	- Cynnal archwiliad hygyrchedd blynyddol o'r safle. - Adnabod a blaenoriaethu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r adeiladau a'r safle. - Sicrhau bod llwybrau, mynedfeydd a chyfleusterau hygyrch yn cael eu cynnal a'u cadw. - Ymgynghori â dysgwyr, staff, rhieni a gweithwyr proffesiynol perthnasol am	Pennaeth Swyddog Iechyd a Diogelwch Corff Llywodraethu	Parhaus Adolygiad ffurfiol yn flynyddol	- Archwiliadau hygyrchedd. - Teithiau safle gan arweinwyr a llywodraethwyr. - Cofnodion iechyd a diogelwch. - Adborth gan ddysgwyr, staff, rhieni ac ymwelwyr. - Adroddiadau'r pennaeth i'r corff llywodraethu. - Gweithgareddau hunanwerthuso'r ysgol. - Tystiolaeth o welliannau a gweithredoedd

	anghenion hygrychedd. • Cydweithio â'r AALI i sicrhau cyllid a chefnogaeth ar gyfer unrhyw addasiadau pellach. •			a gwblhawyd yn erbyn y cynllun hygrychedd. Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.
--	--	--	--	--

Gwerthusiad (Parhad)
2025-2026:

Mae'r ysgol yn parhau i gydweithio'n agos ag arbenigwyr ieuchyd, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol o ysbytai ac arbenigwyr sirol, er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag anableddau yn cael mynediad llawn at adeiladau, darpariaeth a chwricwlwm yr ysgol. O ganlyniad i'r cydweithio effeithiol hwn, mae'r ysgol wedi gallu ymateb yn llwyddiannus i anghenion unigol dysgwyr a sicrhau eu bod yn cymryd rhan llawn ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Mae'r ysgol hefyd wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r AALI i ddatblygu toiled hygrych ac ystafell newid bwrpasol ar gyfer dysgwyr yr ysgol a dysgwyr sy'n mynychu Canolfan Iago. Mae'r datblygiad hwn wedi gwella hygrychedd y safle yn sylweddol ac wedi cynyddu gallu'r ysgol i ddiwallu anghenion ystod ehangach o ddysgwyr.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae rhai meysydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer datblygu. Yn benodol, bydd yr ysgol yn parhau i gydweithio â'r AALI i archwilio opsiynau ar gyfer gwella mynediad hygrych i holl ystafelloedd Canolfan Iago, gan sicrhau bod dysgwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad cyfartal at holl gyfleusterau a darpariaeth y ganolfan. Yn gyffredinol, mae'r ysgol mewn sefyllfa gref i barhau i ddatblygu ei darpariaeth hygrychedd a chynhwysiant yn unol ag anghenion newidiol ei chymuned ysgol.

YSGOL Bryniago CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2026 - 2031

AMCAN CYDRADDOLDEB: Dileu gwahaniaethu negyddol, harasio, erledigaeth o safbwynt hil
Nodwedd warchodedig: Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☒ Crefydd neu gred ☒ Rhyw ☒ Cyfeiriadedd rhywiol ☒
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☒ Hyrwyddo cyfle cyfartal ☐

Meithrin perthnasoedd da ☐

RHESYMEG:

(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthyh?)

Wrth gynllunio a chyflwyno cwricwlwm yr ysgol, byddwn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd cyfoethog a phwrpasol i ddatblygu empathi, parch a thosturi tuag at eraill. Bydd y cwricwlwm yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o amrywiaeth trwy ddathlu ystod eang o gefndiroedd, diwylliannau, gwerthoedd a nodweddion unigol. Bydd hefyd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu gwerthoedd personol eu hunain, cryfhau eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn, a meithrin dealltwriaeth o bobl sydd â chredoau, safbwyntiau a phrofiadau bywyd gwahanol. Yn ogystal, bydd y cwricwlwm yn herio stereoteipiau, rhagfarn a gwahaniaethu, gan hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a pharch at hawliau pob unigolyn.

Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant	Camau Gweithredu Allweddol	Person Arweiniol	Llinell amser	Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/llwyddiant i chi
a) Mae dysgwyr yn datblygu empathi, parch a thosturi tuag at eraill. Maent yn dangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o amrywiaeth ac yn gallu trafod gwahanol gefndiroedd, diwylliannau, credoau a safbwyntiau mewn modd cadarnhaol. Mae dysgwyr yn herio stereoteipiau ac agweddau gwahaniaethol ac yn cyfrannu at ddiwylliant ysgol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a pharch.	• Adolygu cynlluniau'r cwricwlwm i sicrhau bod diwylliannau, cefndiroedd, credoau a phrofiadau amrywiol yn cael eu cynrychioli. • Darparu profiadau dysgu drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), gwasanaethau a digwyddiadau thema. • Dathlu digwyddiadau diwylliannol, crefyddol a chenedlaethol drwy gydol y flwyddyn. • Creu cyfleoedd i ddysgwyr drafod materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. • Sicrhau bod adnoddau dysgu yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru gyfoes a'r byd ehangach. • Herio stereoteipiau ac iaith wahaniaethol drwy'r cwricwlwm a bywyd bob dydd yr	Pennaeth Arweinydd y Cwricwlwm Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad Pob aelod o staff	Parhaus drwy gydol y flwyddyn academaidd Adolygiad tymhorol	• Monitro'r cwricwlwm ac arfarnu cynlluniau. • Teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi. • Holiaduron llais y dysgwr a grwpiau ffocws. • Craffu ar waith disgyblion. • Cofnodion gwasanaethau, gweithgareddau a dathliadau thema. • Cofnodion ymddygiad a gwrth-fwllo. • Adborth gan ddysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr. • Adroddiadau hunanwerthuso ac ymweliadau monitro gan lywodraethwyr.

	ysgol. • Casglu llais y dysgwr ynghylch cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn.			
Gwerthusiad (Parhad) 2025-2026: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi adolygu a diwygio ei chalendr addoli ar y cyd er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd a chyfoethog i ddysgu am ystod eang o gredoau, ffyddau, diwylliannau a thraddodiadau. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cael gwell dealltwriaeth o amrywiaeth grefyddol a diwylliannol Cymru a'r byd ehangach, ac maent yn datblygu parch ac empathi tuag at bobl o wahanol gefndiroedd a safbwyntiau. Mae'r ysgol hefyd yn cyfrannu'n weithredol at weithgorau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Clwstwr Gŵyr. Mae'r cydweithio hwn wedi cryfhau'r ddarpariaeth drwy sicrhau cysondeb a dilyniant yn y profiadau dysgu a gynigir i ddysgwyr ar draws y clwstwr. Yn ogystal, mae wedi galluogi staff i rannu arferion effeithiol, adnoddau ac arbenigedd, gan gynyddu eu hyder wrth gyflwyno materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r ysgol wedi parhau i adolygu a datblygu ei chwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n fwy llawn amrywiaeth cymdeithas gyfoes. Rhoddir sylw cynyddol i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, empathi a pharch dysgwyr tuag at unigolion a chymunedau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu am hanes, cyfraniadau a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, hawliau dynol, hunaniaeth a pherthyn. Trwy raglenni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gwasanaethau ysgol ac ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio a thrafod materion sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth a chynhwysiant mewn modd sy'n briodol i'w hoedran. Mae hyn yn cyfrannu at feithrin diwylliant ysgol sy'n hyrwyddo tegwch, parch a derbynïaeth, gan helpu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen arnynt i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae'r ysgol yn cydnabod bod hon yn broses barhaus. Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio ar gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr archwilio amrywiaeth mewn ffordd ddilys ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, gan sicrhau bod lleisiau, profiadau a chyfraniadau gwahanol grwpiau cymdeithasol yn cael eu cynrychioli'n gyson ac yn ystyrlon o fewn y cwricwlwm. Bydd yr ysgol yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth hon drwy weithgareddau				

hunanwerthuso, craffu ar gynlluniau ac adborth gan ddysgwyr er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn parhau i fod wrth galon bywyd a gwaith yr ysgol.

YSGOL Brynniago CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2025

AMCAN CYDRADDOLDEB: Hyrwyddo cyfle cyfartal

Nodwedd warchodedig: Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐
Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☐
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒
Meithrin perthnasoedd da ☐

RHESYMEG:

(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthyh?)

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu, profiadau a gweithgareddau, waeth beth fo'u cefndir, eu gallu, eu rhyw, eu credoau neu unrhyw nodwedd warchodedig arall. Trwy hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae'r ysgol yn meithrin amgylchedd lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i gefnogi i gyflawni ei botensial.

Effaith a fwriedir/
Meini prawf llwyddiant

Camau Gweithredu Allweddol

Person
Arweiniol

Llinell amser

Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/llwyddiant i chi

a)Mae pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at y cwricwlwm, gweithgareddau a chyfleoedd dysgu. Mae dysgwyr yn dangos parch at amrywiaeth ac yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau unigol. Mae stereoteipiau a rhagfarn yn cael eu herio'n effeithiol ac mae pob dysgwr yn teimlo ei fod yn perthyn i gymuned yr ysgol.	Adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth a chydraddoldeb. • Darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am hawliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy CGM, ACRh a gwasanaethau. • Dathlu digwyddiadau a diwylliannau amrywiol drwy gydol y flwyddyn. • Herio stereoteipiau, rhagfarn ac iaith wahaniaethol yn gyson. • Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol a chyfleoedd arweinyddiaeth. • Casglu a gweithredu ar adborth dysgwyr, staff a rheni.	Pennaeth Arweinydd y Cwricwlwm Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad Pob aelod o staff	Parhaus Adolygiad tymhorol	• Monitro'r cwricwlwm a chynlluniau dysgu. • Teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi. • Holiaduron llais y dysgwr a grwpiau ffocws. • Craffu ar waith disgyblion. • Cofnodion ymddygiad a gwrth-fwllo. • Adborth gan rieni, staff a dysgwyr. • Adroddiadau hunanwerthuso'r ysgol. • Ymweliadau monitro gan lywodraethwyr.
---	---	--	---	--

Gwerthusiad (Parhad)

Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

2025-2026:

Mae'r Corff Llywodraethu yn adolygu ac yn gwerthuso Polisi Codi Tâl yr ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a chyfle cyfartal i bob dysgwr. Mae'r ysgol yn parhau i roi cefnogaeth sylweddol i deuluoedd sy'n wynebu heriau economaidd, gan geisio lleihau effaith costau addysg ar gyfranogiad a chynnydd dysgwyr.

Mae ystod eang o gymorth ariannol ar gael i ddysgwyr sy'n gymwys am PYDd. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i dderbyn gwersi offerynnol yn rhad ac am ddim, gostyngiadau sylweddol yng nghost ymweliadau preswyl, cymorth tuag at gost ymweliadau addysgol undydd, mynediad am ddim i'r clwb cyn-brecwast a darparu byr-bryd dyddiol am ddim. O ganlyniad, mae bron pob dysgwr PYDd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi ac ymweliadau addysgol ochr yn ochr â'u cyfoedion, gan leihau rhwystrau economaidd i gyfranogiad.

Mae monitro mewnol yn dangos bod y cymorth hwn yn cyfrannu at sicrhau mynediad mwy cyfartal i gyfleoedd dysgu ac yn cefnogi lles a chynhwysiant dysgwyr bregus. Er bod cyfranogiad mewn rhai clybiau allgyrsiol yn parhau i fod yn is na'r hyn a ddymunir, mae'r ysgol yn parhau i archwilio ffyrdd o annog mwy o ddysgwyr PYDd i fanteisio ar y ddarpariaeth sydd ar gael.

Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth sicrhau bod dysgwyr ag ADY a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu yn cael mynediad at gymorth wedi'i deilwra. Erbyn hyn, mae bron pob dysgwr PYDd ac ADY yn cael mynediad at gymorth o fewn y dosbarth drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae hyn yn galluogi cynorthwyyr addysgu i ddarparu cymorth amserol ac effeithiol, boed hynny drwy gefnogaeth unigol, gwaith mewn grwpiau bach neu raglenni ymyrraeth arbenigol.

Mae'r trefniadau hyn wedi cryfhau gallu'r ysgol i ymateb i anghenion unigol dysgwyr ac wedi cyfrannu at well ymgysylltiad â dysgu, mwy o hyder a gwell mynediad at y cwricwlwm. Mae staff yn gweithio'n agos gyda'r CADY, athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i haddasu yn unol ag anghenion newidiol dysgwyr.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da tuag at sicrhau bod cefndir economaidd, anghenion dysgu ychwanegol nac unrhyw ffactor arall yn rhwystri i ddysgwyr gael mynediad at gyfleoedd dysgu, profiadau cyfoethogi a chefnogaeth briodol. Bydd yr ysgol yn parhau i adolygu effaith y ddarpariaeth hon a datblygu ffyrdd pellach o hyrwyddo cydraddoldeb a chyfle cyfartal i bob dysgwr.

YSGOL Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 20?? - 20??

AMCAN CYDRADDOLDEB: Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

Nodwedd warchodedig: Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐

Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☐

Hyrwyddo cyfle cyfartal ☐

Meithrin perthnasoedd da ☐

RHESYMEG:

(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthyh?)

Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant	Camau Gweithredu Allweddol	Person Arweiniol	Llinell amser	Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/llwyddiant i chi
a)Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun. Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun. Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

Gwerthusiad (Parhad)

Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

YSGOL **Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.** **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 20?? - 20??**

AMCAN CYDRADDOLDEB: Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

Nodwedd warchodedig: Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐
Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☐
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☐
Meithrin perthnasoedd da ☐

RHESYMEG:

(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthyh?)
Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant	Camau Gweithredu Allweddol	Person Arweiniol	Llinell amser	Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/llwyddiant i chi
a)Parhau i hyrwyddo hawliau plant yn unol â CCUHP	Datblygu ymwybyddiaeth y staff, rhieni a'r dysgwyr o fewn hawliau plant drwy wasanaethau ffocws, arddasngosfeydd dosbarth Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.	Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun. Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

Gwerthusiad (Parhad)

Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

